ESGOBAETH LLANELWY

TYFU **FFYDD** • DOD Â **GOBAITH** • DANGOS **CARIAD**

GROW **FAITH** • BRING **HOPE** • DEMONSTRATE **LOVE**

DIOCESE OF ST ASAPH





2024

# Adroddiad Blynyddol

## Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth




## Cyflwyniad i Fwrdd Cyllid Esgobaeth Llanelwy

**Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth (BCE) yw'r corff cyfreithiol sy'n gofalu am eiddo a chyllid yr esgobaeth**. Mae'n hyrwyddo'r gwaith o drefnu cyllid at ddibenion yr Eglwys yng Nghymru, ac yn benodol Esgobaeth Llanelwy. Mae'n cefnogi cenhadaeth a gweinidogaeth Esgobaeth Llanelwy, ac yn mynd ati i grynhoi, dal a gwario'r arian a gesglir gan yr Ardaloedd Cenhadaeth a chan Gorff Cynrychiolwyr (CC) yr Eglwys yng Nghymru i'r perwyl hwnnw. Y Bwrdd yw cyflogwr staff yr esgobaeth a'r corff cyfreithiol sy'n gyfrifol am weinyddu eiddo ac ymddiriedolaethau'r esgobaeth. Mae'n atebol i'r Gynhadledd Esgobaethol, trwy'r Pwyllgor Sefydlog a'r Comisiwn Elusennau.

Nod elusennol y Bwrdd yw 'hybu a chynorthwyo gwaith a dibenion yr Eglwys yng Nghymru ac yn benodol Esgobaeth Llanelwy'. Mae'r Bwrdd yn parhau i stiwardio a chyfeirio adnoddau ariannol yr esgobaeth er mwyn cefnogi'r gwaith o rannu'r newyddion da am Efengyl Iesu Grist. Unwaith eto, bu ein Hardaloedd Cenhadaeth yn gweithio'n galed i estyn allan i'w cymunedau ac ymdrechu i gynyddu eu cynulleidfaoedd a hynny mewn cyfnod o bwysau ariannol cynyddol.

Yn ystod 2024, fe barhaodd y Bwrdd i ganolbwyntio ar strategaethau a chynlluniau Twf ar draws yr esgobaeth, ochr yn ochr â'r Esgob Gregory a Phwyllgor Sefydlog yr Esgobaeth. Daethom â'r strategaethau hyn ynghyd o dan weledigaeth ein hesgobaeth, sef 'Tyfu Ffydd, Dod â Gobaith, Dangos Cariad'. Ochr yn ochr â'r ffocws hwn ar Dwf, defnyddiwyd cyllid Cadernid Strwythurol i gefnogi'r Ardaloedd Cenhadaeth mwyaf bregus ac eraill yr effeithiwyd yn negyddol arnynt yn sgil y newid diweddar i fformiwla cyfrifo'r Gyfran. Yn ogystal, cyfeiriwyd cyfran o'r cyllid hwn at y cynllun i roi gostyngiad i'r rhai sy'n talu eu Cyfran yn brydlon ac yn llawn.

Eleni oedd ail flwyddyn fformiwla newydd y Gyfran, sy'n canolbwyntio ar gostau gweinidogaeth. Mae ein heglwysi'n dal i ysgwyddo'r rhan sylweddol o gyfanswm costau rhedeg yr Esgobaeth ac mae'r Bwrdd yn ddiolchgar iddynt am barhau i gefnogi'r gwaith cenhadu a gweinidogaethu. Diolch i ymroddiad eglwysi ac Ardaloedd Cenhadaeth, ynghyd â chyfuniad o'r grantiau cadernid a'r cynllun oedd yn cynnig gostyngiad yn y Gyfran, roedd yr holl Ardaloedd Cenhadaeth unwaith eto wedi talu eu Cyfran yn llawn erbyn diwedd y flwyddyn. Ardderchog wir.

Er bod ein Hardaloedd Cenhadaeth yn parhau i wynebu pwysau ariannol, mae'r Bwrdd yn cynllunio ar gyfer y tymor canolig a'r hirdymor er mwyn rheoli arian yn ddarbodus fel bod modd parhau i gyllido'r gwaith cenhadu a gweinidogaethu, a'r strwythurau a'r adeiladau sy'n cefnogi bywyd yr Esgobaeth. Hoffem nodi ein diolch a'n gwerthfawrogiad o holl waith cyson cynifer o bobl ledled yr esgobaeth.

Wedi i werth buddsoddiadau sefydlogi yn 2023, roeddem yn falch o weld y marchnadoedd yn gwella yn 2024, a bu'r cyfraddau llog uchel ar ddechrau'r flwyddyn yn fanteisiol i'n buddsoddiadau.





**Cynlluniau ar gyfer y dyfodol – y blaenoriaethau ar gyfer 2025 a'r tu hwnt:**

- Bydd y Bwrdd yn parhau i gyllido gweledigaeth yr esgobaeth, sef 'Tyfu Ffydd, Dod â Gobaith, Dangos Cariad' yn ystod y blynyddoedd i ddod.
- Yn 2025, bydd ffocws penodol ar Ddod â Gobaith, cyn i ni droi ein sylw at Ddangos Cariad yn 2026.
- Cyflawni strategaethau sy'n cefnogi ein heglwysi a'n cymunedau ac yn annog mentrau twf newydd, gan gynnwys yr Eglwysi Hyb Cenhadaeth, Cenhadon Arloesol, a phlannu eglwys newydd allan o Eglwys Stryt yr Hôb. Bydd y Bwrdd yn dal i weithio'n agos gyda'r esgob i nodi meysydd twf eraill y bydd angen buddsoddi ynddynt.
- Mae'r Bwrdd yn parhau i ddatblygu cynigion am gyllid o Gronfa Twf Eglwysi Corff y Cynrychiolwyr, sy'n werth £100m.
- Er bod diffyg o **£23,123** ar weithrediadau'r esgobaeth yn 2024, mae'r Bwrdd yn parhau â'i strategaeth o ailfuddsoddi gwargedau blynyddoedd blaenorol ac mae wedi cyllidebu ar gyfer diffyg o **£150,281** yn 2025. Yn ogystal, gwneir taliadau i Ardaloedd Cenhadaeth lle bu plwyfi'n wag am amser hir o 2024 ymlaen.
- Parhau i reoli cyllid yn fanwl a blaengynllunio fel y gellir cefnogi'r gwaith o gyflawni strategaeth yr esgobaeth yn effeithiol, yn cynnwys symud tuag garbon sero net erbyn 2030.
- Parhau i reoli arian mewn ffordd ddarbodus a diogelu'r cronfeydd wrth gefn er mwyn sicrhau cadernid ariannol a chynaliadwyedd ein Hesgobaeth a'n Heglwys.










## Grŵp Llywio Datblygu/Trawsnewid Gweinidogaeth

**Ym mis Mehefin 2024, gyda chydsyniad y Pwyllgor Sefydlog, daeth y Grŵp Llywio Datblygu yn Grŵp Llywio Trawsnewid Gweinidogaeth.** Ei weledigaeth yw datblygu diwylliant yn Esgobaeth Llanelwy sy'n esblygu ac sy'n annog gweinidogaeth drawsnewidiol wedi'i seilio ar ddealltwriaeth ysgrythurol o'r ffordd y mae holl bobl Dduw yn ddisgyblion ac yn gweinidogaethu. Ym mis Tachwedd 2024, penodwyd Mike Haslam yn Gyfarwyddwr cyntaf Trawsnewid Gweinidogaeth. Mae Mike, ymhlith pethau eraill, yn arweinydd prosiect yr Eglwysi Hyb a'r Cenhadon Arloesol, y cafodd Llanelwy arian o Gronfa Twf yr Eglwys yng Nghymru ar ei gyfer.

Ym mis Mai eleni, cafodd tri gweinidog lleyg eu trwyddedu gan yr Esgob Gregory i weithio ar draws yr esgobaeth. Trwyddedwyd Josh Schoch yn gaplan bugeiliol yn Ardal Genhadaeth yr Aber a'r Mynydd. Trwyddedwyd Maria Morante yn gaplan bugeiliol yn Ardal Genhadaeth Wrecsam. Trwyddedwyd Emily Lovgren yn gaplan ieuenctid, teuluoedd a phlant yn Ardal Genhadaeth yr Aber a'r Mynydd.

**Ym mis Mehefin, cafodd y canlynol eu hordeinio gan yr Esgob Gregory:**

- **Emma Dale**, yn offeiriad yn Ardal Genhadaeth Alyn
- **Ana Evans**, yn offeiriad yn Ardal Genhadaeth Alyn
- **Wendy Gardner**, yn offeiriad yn Ardal Genhadaeth Cedewain
- **Kathryn Hall**, yn offeiriad yn Ardal Genhadaeth yr Aber a'r Mynydd
- **Hugh Richardson**, yn offeiriad yn Stryt yr Hôb, Wrecsam
- **Cass Meurig Thomas**, yn offeiriad yn Ardal Genhadaeth Valle Crucis
- **Beci Kelly**, yn Ddiacon Digyflog i wasanaethu yn Ardal Genhadaeth Dinbych.

Mae'r nod o drawsnewid gweinidogaeth er mwyn arwain at dwf yr eglwys yn parhau.










## Grŵp Llywio Ymgysylltu

### Tlodi Bwyd

**Mae ein tair canolfan Well Fed a leolir mewn eglwysi wedi parhau i ffynnu yn ystod 2024, gan ddarparu mwy na 9,000 o brydau bwyd i bobl yn ein cymunedau.** Roedd y prydau hyn yn cynnig bwyd maethlon o ansawdd da, heb gynhwysion wedi'u prosesu'n helaeth (UPFs), i bobl waeth beth fo'u hincwm. Mae'r prosiect yn sicrhau mynediad at fwyd fforddiadwy, yn enwedig i bobl sy'n byw mewn ardaloedd â mynediad cyfyngedig i siopau bwyd neu i bobl sy'n wynebu trafferthion wrth i gostau bwyd godi.

Lansiwyd ein **pedwaredd canolfan Well Fed** yn 2024 yn Eglwys yr Holl Saint, y Drenewydd, sydd bellach yn darparu **254 o brydau bwyd y mis** ar gyfartaledd. Yn ogystal â bod yn faethlon, mae'r prydau hyn hefyd yn gyfle i feithrin cysylltiadau cymdeithasol a datblygu cymuned.

### Iechyd Meddwl

Yn 2024, cyflwynwyd sesiynau Ymwybyddiaeth a Chymorth Cyntaf Iechyd Meddwl ar draws yr esgobaeth. O ganlyniad:

- hyfforddwyd **14 o bobl** yn swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl
- daeth **77 o bobl** i'r sesiynau Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl.

Mae'r hyfforddiant hwn yn grymuso unigolion i ddeall heriau iechyd meddwl yn well ac i ymateb yn briodol mewn argyfwng. Problemau iechyd meddwl yw prif achos anabledd yn y Deyrnas Unedig, gan effeithio'n anghymesur ar grwpiau penodol yng Nghymru – megis pobl ar incwm isel neu bobl â chyflyrau iechyd sydd eisoes yn bodoli, felly mae'r gwaith hwn yn rhan hanfodol o'n cenhadaeth.

### Llwybr Pererinion Gogledd Cymru


Buom yn cydweithio â gwirfoddolwyr a Gweinyddwr Cyllid yr Esgobaeth i gyflwyno cais am arian er mwyn datblygu prosiect i gefnogi a datblygu llwyddiant Llwybr Pererinion Gogledd Cymru. Mae'r llwybr hir hwn yn cysylltu eglwysi hynafol a safleoedd sanctaidd, gan gynnig cyfle ystyrlon i bobl archwilio ffydd wrth gerdded yn ôl traed pererinion o'r canrifoedd a fu.

### Carchar Berwyn

Cryfhawyd ein perthynas â Charchar Berwyn trwy gymryd rhan mewn dwy sesiwn Sycamore Tree a gwasanaeth y Sul gyda charcharorion a gwirfoddolwyr. Rhaglen Cyfiawnder Adferol Gristnogol sy'n cael ei rhedeg gan sefydliad Prison Fellowship yw'r Sycamore Tree, sy'n canolbwyntio ar atebolrwydd personol, iachâd a thrawsnewid.

### Ymwybyddiaeth o Linellau Cyffuriau

Cyflwynwyd **cwrs tri diwrnod llwyddiannus Breaking County Lines** yng Ngholeg Cambria. Darparodd y rhaglen hyfforddiant ymwybyddiaeth a gwaith atal cynhwysfawr i **12 o gyflogeion y coleg**, i'w paratoi â'r wybodaeth a'r offer angenrheidiol i adnabod achosion o ecsbloetio gan Linellau Cyffuriau, delio â nhw a'u hatal.










# Grŵp Llywio Meithrin

**Ar hyd 2024, mae'r Grŵp Llywio Meithrin wedi dyfnhau ei ymrwymiad i gefnogi twf ysbrydol, emosiynol a chymdeithasol plant, pobl ifanc a theuluoedd ar draws yr esgobaeth.** Eleni mae ein gwaith, sydd â'i wreiddiau yng ngweledigaeth Tyfu Ffydd, wedi blaenoriaethu'r cysylltiad rhwng yr eglwys, yr ysgol a'r cartref trwy hyfforddiant, cydweithrediad a gweinidogaeth greadigol.

Trwyddedwyd Gweithwyr Plant ac Ieuenctid newydd, a darparwyd hyfforddiant strategol mewn meysydd allweddol, gan gynnwys cymorth pontio Blwyddyn 6, Mannau Gweddi a Chwarae Duwiol. Bu'r sesiynau hyn yn paratoi ymarferwyr i greu amgylcheddau seiliedig ar werthoedd Cristnogol sy'n cyfoethogi ar lefel ysbrydol.

Roedd cymorth iechyd meddwl seiliedig ar ffydd yn dal i fod yn flaenoriaeth graidd. Buom yn cydweithio ag MHFA Cymru i hyfforddi swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl a chyflwynwyd sesiynau i gynyddu ymwybyddiaeth staff mewn dwy ysgol. Hyfforddwyd 2 aelod o staff swyddfa'r esgobaeth yn hyfforddwyr cymorth profedigaeth, gan baratoi'r ffordd ar gyfer darpariaeth ar draws yr esgobaeth yn 2025.


Tyfodd ein hymgysylltiad ag ysgolion trwy ymweliadau pwrpasol â'r gadeirlan i archwilio ffydd trwy gelf, hanes a'r ysgrythur, gan edrych yn benodol ar effaith y Beibl Cymraeg, ochr yn ochr ag ecoddigwyddiadau o dan arweiniad yr arlunydd Tim Pugh. Bu gwaith rheolaidd gan gaplaniaid yn parhau yng Ngholeg Cambria, Llaneurgain a bu ein pecyn newydd, Dechrau yn y Brifysgol, yn cefnogi pobl ifanc yn ystod cyfnod pontio arwyddocaol yn eu bywydau.



Cafodd cysylltiadau rhwng y cenedlaethau eu cryfhau trwy ddigwyddiadau megis y diwrnod i deuluoedd yng Nghoed Castell Helygain a'r cynulliad deinamig i ieuenctid yn Wrecsam gydag Eglwys Stryt yr Hôb, a ddenodd tua 50 o bobl ifanc. Roedd y digwyddiadau hyn yn cyfuno addoliad a chymdeithas â gweithgareddau creadigol, llawn hwyl. Mae cynlluniau ar waith i adeiladu ar y llwyddiant hwn yn 2025.

Buddsoddwyd hefyd mewn gwaith i feithrin cymuned yng nghôr y gadeirlan, gyda barbeciw ar ddiwedd y tymor a pharatoadau ar gyfer taith y côr i'r Ffindir yn 2025, oedd â'r nod o feithrin ffydd trwy gerddoriaeth a rhannu profiadau.

Wrth i ni gamu ymlaen, mae ein ffocws yn dal yn glir: sef paratoi, cysylltu a meithrin – a hynny er mwyn tyfu ffydd gydol oes.













# Gweithrediadau

**Yn 2024, agorwyd Cronfa Twf yr Eglwys yng Nghymru gwerth £100m i geisiadau, ac ym mis Medi, llwyddodd dau brosiect o Esgobaeth Llanelwy i ddenu cyllid Haen 2.** Dyfarnwyd cyfanswm o £5.6 miliwn i ddatblygu Eglwysi Hyb Cenhadaeth ac i recriwtio Cenhadon Arloesol Gwledig. Nodwyd mai Eglwys San Silyn, Wrecsam, Eglwys yr Holl Saint, y Drenewydd, ac Eglwys Crist, Prestatyn fyddai'r Eglwysi Hyb Cenhadol nesaf. Bydd yr arian hefyd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu tri hyb pellach yn 2026. Bydd y tri Chenhadydd Arloesol Gwledig yn gweithio yn ardal Archddiaconiaeth Maldwyn.

Ar ben hynny, derbyniodd nifer o brosiectau gyllid o dan Haen 1 y Gronfa Twf (llai na £10,000) yn 2024. Mae mwy o eglwysi'n cyflwyno ceisiadau am gymorth â phrosiectau newydd, sy'n aml yn canolbwyntio ar ddenu pobl newydd, a datblygu presenoldeb yn eu cymunedau lleol. Mae enghreifftiau'n cynnwys rhaglenni cerddoriaeth i blant ac oedolion ifanc, estyn allan i'r gymuned, a thechnoleg i gefnogi gweithgareddau a gwasanaethau eglwys.

Mae tîm swyddfa'r esgobaeth wedi sefydlu proses i gynorthwyo eglwysi ac Ardaloedd Cenhadaeth â'u ceisiadau am y grantiau hyn. Cysylltwch â swyddfa'r esgobaeth, a bydd staff yn eich tywys trwy'r broses, gan gynnig cyngor ynghylch cryfderau'r prosiect, gwybodaeth am sut i ddatblygu eich cynnig, cymorth o ran sicrhau cymeradwyaeth gan yr esgob, a chyflwyno'r cais terfynol.

Mae **rhoi digyffwrdd** yn dod yn ddull cynyddol bwysig o gefnogi ein heglwysi. Rydym yn sylweddoli bod angen cynnig dewisiadau talu electronig gan fod llai o bobl yn defnyddio arian parod bellach. Buom yn gweithio gyda nifer o eglwysi yn yr esgobaeth i dreialu dyfeisiau talu newydd a deunyddiau marchnata ategol. O ganlyniad, datblygwyd dulliau talu sy'n cynnwys dyfeisiau, deunyddiau hyrwyddo, a chyngor ar sut i'w defnyddio'n effeithiol. Bydd modd estyn hynny i eglwysi eraill yn y dyfodol.







# Eiddo

## Eglwysi

**Mae’r rhaglen arolygu bum-mlynyddol yn dal i fod ar y llwybr cywir, gyda 42 o arolygiadau pellach wedi’u cwblhau yn ystod 2024.** Yn ystod y cyfnod hwn, bu’r Arolygydd Eglwysi hefyd yn ymweld â nifer o eglwysi ar draws yr Esgobaeth, i gynnig cymorth ac arweiniad ar ystod eang o faterion yn ymwneud ag adeiladau a rheoli tir — o wella hygyrchedd i edrych ar atebion cynaliadwy megis toiledau compost.

Pleser yw cyhoeddi bod Eglwys Crist, Prestatyn (Ardal Genhadaeth Bryn a Môr) wedi derbyn arian yn ddiweddar yn sgil cais am arian Twf. Dynodwyd cyfran o’r arian hwn i ddarparu gofynion sylfaenol i alluogi’r adeilad i weithredu fel Eglwys Hyb Cymunedol, yn benodol: gwres, cyfleusterau paratoi bwyd, a thoiled(au) hygyrch.




## Eglwysi Pererinion

Cynhaliwyd adolygiad blynyddol yr Eglwysi Pererinion yng nghyfarfod y Bwrdd Eiddo ym mis Mai. Mae wyth eglwys bererinion ar hyn o bryd. Cymeradwywyd yr holl geisiadau am y 12 mis nesaf. Mae hyn yn tystio i waith caled a brwdfrydedd pawb sy’n ymwneud â sicrhau bod yr eglwysi arbennig hyn yn parhau i ffynnu.

## Fforymau Eiddo

Roedd nifer da yn bresennol yng nghyfarfod y Fforwm Eiddo ym mis Ebrill ar gyfer Ardaloedd Cenhadaeth y Gororau (ar y pryd), Wrecsam ac Alyn. Mae’r digwyddiadau hyn wedi cysylltu Ardaloedd Cenhadaeth a Wardeiniaid Eglwys â Swyddogion Eiddo’r Esgobaeth er mwyn rhannu gwybodaeth arbenigol am gynnal a chadw adeiladau, ffacwltïau a’r arolygiadau pum-mlynyddol, ynghyd â hybu mentrau megis Eco Church a’r Offeryn Mesur ôl troed Ynni. Mae cynlluniau ar y gweill i gynnal rhagor o ddigwyddiadau er mwyn estyn y cyfle hwn ar draws yr esgobaeth.





## Eco Eglwys

Yn 2024 dyfarnwyd Gwobr Aur Eco Eglwys, yr ail yn unig yng Nghymru, i Eglwys San Sadwrn, Henllan, yn Ardal Genhadaeth Dinbych. Gobeithio bydd yr esiampl hon yn ysbrydoli eglwysi eraill i barhau â'u hymdrechion.

Pleser yw cyhoeddi hefyd fod swyddfa'r Esgobaeth wedi derbyn Gwobr Arian Eco Eglwys ar ddiwedd mis Awst. Bydd ein sylw yn troi yn awr at Wobr Arian Eco Esgobaeth. Sefydlwyd gweithgor i baratoi'r cais. Mae gofynion meini prawf y Wobr Arian yn cyffwrdd â sawl elfen o fywyd yr esgobaeth a bydd gofyn cynnwys holl staff yr esgobaeth a'r Ardaloedd Cenhadaeth er mwyn cyflawni'r wobr.

## Pwyllgor Cynghori'r Esgobaeth (DAC)

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y ceisiadau canlynol am ffacwlti yn ystod 2024.

| Math | Math A | B | Llawn |
|---|---|---|---|
| Llanelwy | | | |
| Cyfanswm 2024: | 125 | 36 | 25 |
| Maldwyn | | | |
| Cyfanswm 2024: | 28 | 27 | 20 |
| Wrecsam | | | |
| Cyfanswm 2024: | 54 | 20 | 42 |

Daeth nifer o seddi achlysurol yn wag yn ystod 2024, a llanwyd y rheiny cyn diwedd y flwyddyn, gydag Archddiacon Maldwyn yn cael ei benodi'n Gadeirydd dros dro.

Roedd y canlynol ymhlith y ffacwltïau a ganiatawyd gan y Canghellor:

- cydsynio bod Eglwys San Pedr, Rhuthun, yn dechrau gwaith ad-drefnu sylweddol
- ffacwlti i Eglwys San Silyn, Wrecsam, gyflawni'r atgyweiriadau a amlygwyd yn ei harolygiad pum-mlynyddol
- bod Eglwys Saint Mael a Sulien, Corwen, yn bwrw ymlaen â gwaith ad-drefnu er mwyn gosod toiledau a man lletygarwch.





# Cyllid yr Esgobaeth ar gyfer ein Heglwysi

**Dyfarnodd Pwyllgor Grantiau'r Esgobaeth bron £81,000 rhwng 27 eglwys ar gyfer prosiectau adeiladu.** Derbyniodd wyth cais yr uchafswm o £7,500 a neilltuir ar gyfer prosiectau sy'n gwella perfformiad amgylcheddol ac yn symud tuag at leihau ôl troed carbon yr adeilad. Yn ogystal, dyfarnodd y pwyllgor bron £17,500 mewn grantiau tuag at ymgysylltu cymunedol, gwaith ieuenctid a bwrsariaethau hyfforddi.





### Adroddiad Cyllid Blynyddol 2025

Mae Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth yn cynnwys cynrychiolwyr lleyg a chlerigol etholedig o eglwysi ar draws yr esgobaeth, ynghyd ag aelodau ex-officio. Mae holl ardaloedd yr esgobaeth wedi'u cynrychioli ar y Bwrdd ac mae'r aelodau etholedig yn dod â phrofiad helaeth o fywyd a chyllid yr eglwys i'r cyfarfodydd a'r trafodaethau.

## Adolygiad cyllid 2024

Er gwaetha'r heriau parhaus ar hyd 2024, mae'r Bwrdd yn parhau i stiwardio a chyfeirio adnoddau ariannol yr esgobaeth er mwyn cefnogi cenhadaeth, gweinidogaeth a thwf. Rydym yn ddiolchgar i Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru am ddarparu rhagor o arian cymorth yn ystod 2024 i gefnogi'r chwe esgobaeth trwy'r heriau ariannol sy'n parhau. Mae'r Bwrdd wedi defnyddio'r arian hwn i ddarparu cymorth hanfodol i'r eglwys ar lawr gwlad yn yr Ardaloedd Cenhadaeth, i ddarparu arian wedi'i dargedu i ardaloedd mewn angen ac i gyllido mentrau newydd i ysgogi twf. Mae'r Ardaloedd Cenhadaeth wedi parhau i ymateb yn wych a sicrhau bod y Gyfran wedi'i thalu'n llawn, gan weithio'n agos gydag eglwysi eraill yn yr Ardal Genhadaeth a chynnig cefnogaeth iddynt yn aml.

Yn 2024, roedd y Bwrdd wedi cyllidebu ar gyfer diffyg o £271,811 fel rhan o'u hymrwymiad i ailfuddsoddi gwargedau'r flwyddyn flaenorol. Mae'r diffyg o ran gweithrediadau yn y gyllideb derfynol yn £23,123. Y prif reswm am hyn yw'r gostyngiad yng nghostau cyflogau clerigion cyflogedig gan i'r Esgobaeth gael anhawster i lenwi swyddi gwag. Mae ymrwymiad parhaus y Bwrdd i'r weinidogaeth reng flaen yn parhau ac mae'n gweithio'n galed i recriwtio a llenwi swyddi gwag yn brydlon.


Yr elfen fwyaf yng ngwariant yr esgobaeth (71% neu £2.8m) yw costau clerigion, gan gynnwys cyflogau, pensiynau a chostau tai. Yn 2024, bu cynnydd o 5% yng nghyflogau clerigion a lleygwyr a chynnydd o 7.4% yng nghostau tai clerigion. Mae'r Bwrdd yn dyrannu arian i gefnogi gwaith Grwpiau Llywio'r Esgobaeth ym meysydd allweddol ymgysylltu cymdeithasol, addysg a dysgu gydol oes, ac i gefnogi a datblygu'r holl wahanol fathau o weinidogaeth. Mae'r Bwrdd hefyd yn cyllido gwaith Dîm Swyddfa'r Esgobaeth sy'n rhoi cefnogaeth hanfodol i fywyd ein heglwysi a'n Hardaloedd Cenhadaeth.

Mae Trysoryddion yr Ardaloedd Cenhadaeth a'r Eglwysi yn parhau i weithio mewn modd gweddigar ac adeiladol i sicrhau bod ein heglwysi'n gynaliadwy ac yn llewyrchus. Yn wahanol i'r blynyddoedd blaenorol, cafodd dyraniadau Cyfran yr Ardaloedd Cenhadaeth eu dosbarthu heb gyfarfodydd ffurfiol, wrth i'r Esgobaeth rymuso'r Ardaloedd Cenhadaeth i hwyluso'r sgyrsiau hyn ar lefel eglwys. Roeddem yn falch iawn bod pob un o'r 19 Ardal Genhadaeth yn gymwys am y gostyngiad blynyddol a hynny am y drydedd flwyddyn o'r bron. Mae hyn yn tystio i'r holl waith cyson a gyflawnir gan gynifer o bobl ledled yr esgobaeth.




## CYLLIDEB 2025

### Incwm




### Gwariant










## Cadw mewn Cysylltiad

Esgobaeth Llanelwy,
Swyddfa'r Esgobaeth, Stryd Fawr, Llanelwy,
LL17 ORD

01745 582245

stasaphoffice@churchinwales.org.uk

www.dioceseofstasaph.org.uk

@StAsaphDiocese

@StAsaphDiocese

Rhowch eich enw i gael StAR, ein cylchlythyr wythnosol **https://dioceseofstasaph.org.uk/st-asaph-round-up-newsletter**







